Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**2 HYDREF 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rhys Williams - Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu Proffesiynol |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Bydd rheoli'r risgiau'n effeithiol yn galluogi GwE i gefnogi'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau strategol, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae cofrestr risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Mae'r risgiau wedi cael eu hadolygu yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig i haen ganol y system addysg yng Nghymru a'r cyfnod trosiannol o wasanaeth Ranbarthol i'r Awdurdodau Lleol.

3.3 Mae’r addasiadau i’r Gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch. Awgrymir bod risg 1 yn cael ei ddileu.

3.4 Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg.

| Matrics Risg | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| Tebygolrwydd | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) | A |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) | B |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) | C |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) | D |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** | |
| | | **Effaith** | | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid yw'n glir faint y bydd y newid sylweddol mewn polisi Llywodraeth Cymru yn ei gostio mewn cyfnod anodd yn gyllidebol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes asesiad wedi'i wneud gan Llywodraeth Cymru i bwyso a mesur effaith bosibl y newidiadau hyn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Mae morâl a chymhelliant staff GwE yn hynod isel.

7.2 Nid oes eglurder eto o ran swyddi amgen i staff gwella ysgolion wedi mis Mawrth 2025.

7.3 Bydd llai o secondiadau a diswyddiadau yn effeithio ar batrwm y tîm ac yn achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 O ran y gofrestr risg, ymgynghorwyd gyda Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

8.2 Dim ymgynghori ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o ran y newid polisi.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cofrestr Risg GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae sustem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. Mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb. Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor yn ôl yr angen wrth fynd i'r afael â'r materion a nodir.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys y prif risgiau. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y gofrestr yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a byddaf yn cefnogi GwE wrth reoli'r risgiau mae'n eu wynebu. Fel sydd wedi ei nodi yn Rhan 5 o'r adroddiad, mae cryn ansicrwydd yn bodoli ar hyn o bryd am yr hyn fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf ac yn hynny o beth mae cael Cofrestr Risg gyfredol sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson yn hanfodol er mwyn gallu blaenoriaethu gweithredoedd.